

SUL Y BLODAU

Darlleniad 1: Salm 2:1–12

Darlleniad 2: Ioan 12:12–26

Gweddi:

Greawdwr pob harddwch, diolchwn heddiw am brydferthwch y blodau. Diolchwn hefyd am y synhwyrau sydd gennym i'w gweld a'u hogleuo. Canmolwn di eu bod yn arwyddion o anwyldeb a gwerthfawrogiad. Maent wedi bod yn gyfryngau i ddod â llonder i ni sydd wedi'u derbyn a'r rheiny y cawsom y ffrainc o'u rhoi iddynt.

Y cyfan fedrwn ni ei wneud, O! Dad, yw eu plannu a'u trin. Ti sy'n peri iddynt dyfu. Ac mae'n peri syndod i ni fod i bob blodyn ei arbenigrwydd ei hun. Dotio wnawn wrth feddwl amdanat yn creu'r holl harddwch, ac wrth sylweddoli bod yna bwrpas i'r cyfan rwyd ti wedi ei ddarparu ar ein cyfer yn y byd hwn. Does arnat ti ddim un ddyled i ni, mewn gwirionedd, ac eto rwyd yn rhoi popeth i ni. Maddau i ni am gymryd cymaint yn ganiataol yn lle eu derbyn gyda diolch.

Mae arnom ni ddyledion lawer i ti, ac eto, ychydig a roddwn iti. Maddau i ni ein bod mor ddigywilydd. A hithau'n Sul y Blodau, cofiwn gyda diolch, O! Dad, am daith dy unig-anedig Fab, Iesu, i Jerwsalem. Hosanna! Haleliwia! seiniwn yn uchel yma heddiw. Roedd ei wyneb ef tua Jerwsalem. Ni fedrai dim ei atal. Mynnai fynd yr holl ffordd. Dim troi'n ôl. Dim anwadalwch. Dim llwfrdra. O! am olwg newydd ar ei fawrhydi a'i fawredd y Sul hwn.

Byddwn yn ei arddel a'i ganmol, ein Tad, pan fydd hi'n flodeuog yn ein hanes. Gweddiwn am ras i ddal i'w ddilyn, ei arddel a'i ganmol pan nad yw hi mor flodeuog. Gwared ni rhag bod yn anwadal a llwfr. Yn hytrach, gad i ni fod yn Gristnogion sy'n benderfynol o ddilyn yr Arglwydd Iesu costied a gostio.

Er mawr gywilydd i ni fel Cristnogion, rydym wedi gwneud a dweud llawer o bethau na ddylem fod wedi'u gwneud na'u dweud. Edifarhawn am hynny. Fel Cristnogion hefyd, nid ydym wedi gwneud na dweud llawer o bethau y dylem fod wedi'u gwneud a'u dweud. Bu i ni golli'r cyfle. Edifarhawn am hyn eto. Clodforwn di am Iesu, 'Lili'r Dyffryn'. Clod i ti am ei enedigaeth 'wyrthiol', 'ei febyd gwyn', 'ei fywyd pur, dihalog', ac 'am Galfaria fryn.' Clodforwn di am mai ef yw'r un harddaf yng ngardd yr Atgyfodiad. Haleliwia! Clodforwn di am Iesu, 'Rhosyn Saron':

'Rhosyn Saron yw ei enw,
Gwyn a gwridog, teg o bryd;
Ar ddeng mil y mae'n rhagori
O wrthrychau penna'r byd:
Ffrind pechadur,
Dyma'r llywydd ar y môr!'

Rydym yn ymwybodol, O! Dad, fod drain a rhosod yn mynd gyda'i gilydd. Diolchwn, felly, fod 'Rhosyn Saron,' Iesu, wedi bod yn barod i wisgo'r goron ddrain drosom ni.

Gweddiwn am gael bod yn debyg i Iesu, 'Lili'r Dyffryn' a 'Rhosyn Saron', yn bur, hardd ac atyniadol, gan ddod â llawenydd a chysur i'r rheiny a gyfarfyddwn yn ein bywyd bob dydd a chan daenu ar led bersawr yr adnabyddiaeth ohono.

'Gad inni beunydd fyw
Dan wllith cawodydd Duw
Yn iraidd hardd;
Dy awel dyner di,
Wrth ddod o Galfari,
A wnelo'n bywyd ni
Fel nefol ardd.'

Mae Iesu o'n tu. Dad sanctaidd, boed iddo ef ein cael ni o'i du ef. Deisyfwn i dyrfa ddi-rif ddod o'i du a dod trosodd i'w ochr y Sul y Blodau hwn.

Yn 'd'enw pur', Arglwydd arglwyddi a Brenin brenhinoedd. Amen.

Gareth Hughes